Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

10. Hyrwyddo a marchnata

10.6 Yr adroddiad blynyddol

Nid rhwymedigaeth statudol yn unig yw cyhoeddi eich adroddiad blynyddol: gall fod yn gyfle marchnata a chyfathrebu unigol mwyaf pwysig yn y flwyddyn. Bydd barn am eich perfformiad yn cael ei wneud ar sail eich adroddiad blynyddol. Defnyddiwch ei bŵer i drosglwyddo'ch negeseuon yn rymus, fel y'u cofir.

Negeseuon

Rhaid i gwmnïau, adrannau llywodraethol, elusennau a chyrff anllywodraethol gyhoeddi gwybodaeth statudol am eu perfformiadau blynyddol. Fodd bynnag, mae yna sawl reswm da pam y dylai mudiad gwirfoddol gyhoeddi adroddiad blynyddol o ansawdd dda. Er enghraifft, mae'n:

- Esbonio eich mudiad i'r byd allanol ac yn sôn am ei fwriadau, ei gyflawniadau, ymrwymiad ac arddull y gwaith.
- Adrodd nôl i roddwyr ac eraill ac mae'n ffordd o ddiolch iddynt.
- Annog staff a gwirfoddolwyr ac yn rhoi cyfle iddynt ymfalchïo yn eu gwaith.
- Ysgogi a denu ymgeiswyr swydd o ansawdd.
- Rhoi darlun clir o fudiad a weithredir yn dda, gan ddangos defnydd da o arian cefnogwyr.
- Gallu gofyn yn uniongyrchol am ymglymiad a chodi arian.
- Atgyfnerthu ymddiried cyhoeddus ac yn rhoi hygrededd i'r mudiad.

Mae'r ffordd y cyflwynwch eich gwybodaeth ac atgyfnerthu eich negeseuon allweddol yn medru effeithio'r argraff ar y darllenwr.

Er mwyn creu'r effaith mwyaf, mae angen i'ch prif negeseuon fod yn rhan o bob agwedd o'ch adroddiad blynyddol - y dudalen flaen, yr uchafbwyntiau blynyddol, cynllun y tudalennau, lluniau, siartiau a chynnwys golygyddol.

Strwythur

Ni fydd pob darllenwr yn dechrau ar y dechrau a darllen drwyddo tan y diwedd. Gall strwythur eich adroddiad blynyddol wneud y cyfan yn fwy deniadol i bori drwyddo, drwy ddefnyddio technegau megis:

- Crynodeb 'ar gip' o'r flwyddyn.
- Tudalen gynnwys a rhifo tudalennau.
- Siartiau yn dangos uchafbwyntiau ariannol a gweithredol.
- Penawdau adran clir ar bob tudalen.

- 'Adroddiadau arbennig' ar bynciau megis eich perfformiad amgylchfydol neu bolisi cyfleoedd cyfartal.
- Arolwg ariannol - crynodeb byr i'r rhai hynny na fydd yn ei astudio'n fanwl.
- Siartiau a diagramau bach yn yr ymylon i ddarlunio’r testun.
- Rhestr termau technegol.
- Enwau a chyfeiriadau cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach - gan gynnwys eich gwefan os oes un.

Arddull

Mae'r adroddiadau blynyddol gorau wedi'u hysgrifennu mewn arddull cylchgrawn busnes o ansawdd dda. Nid yw mwyafrif adroddiadau blynyddol yn cyrraedd y nod, ac yn aml yn ddiflas ac yn llawn jargon. Gall cadeiryddion a phrif weithredwyr ysgrifennu'n wael. Gall defnyddio ysgrifennwr proffesiynol fod o gymorth i wneud y cyfan yn ddarllenadwy. Gall barn dieithryn sicrhau nad ydych yn honni fod pawb yn gwybod am eich sector.

Cynulleidfaoedd

Ystyriwch pwy fydd yn darllen eich adroddiad blynyddol. Mae hefyd yn gyfle i roi gwybodaeth a pherswadio pobl megis:

- arianwyr posib
- aelodau a rhoddwyr
- swyddogion seneddol a llywodraethol
- cymunedau lleol
- gweithwyr
- cyflenwyr
- rheolyddion
- grwpiau amgylchfydol neu lobïwyr eraill

Mewn unrhyw flwyddyn, bydd hyd at 25% o'r darllenwyr yn gweld eich adroddiad am y tro cyntaf. Er eu lles hwy, mae'n werth cynnwys gwybodaeth sylfaenol am eich gweithgareddau a'ch hanes.

Lluniau

Gall y person sy'n pori ddysgu llawer drwy'r lluniau a phenawdau. Gall ffotograffydd medrus, a briffiwyd ar ddechrau'r flwyddyn, ddal adegau allweddol mewn ffordd sy'n trosglwyddo nid yn unig digwyddiadau'r flwyddyn ond hefyd personoliaeth y mudiad. Gyda phenawdau cryno, bydd lluniau yn elfen ddeniadol a gwybodus ar y dudalen.

Rheoli'r cynhyrchiad

Allwedd llwyddiant yw dechrau'n gynnar a chymhwyso disgyblaeth rheoli prosiect proffesiynol. Os nad allwch dalu dylunydd proffesiynol, mae yna ddigon o becynnau dylunio ar gael. Er mwyn cyflawni adroddiad sydd y tu hwnt o ddeniadol, rhaid i chi benderfynu ar eich negeseuon a thema allweddol yn gynnar yn y broses, ac apwyntio un cydlynydd i arolygu'r ysgrifennu copi, dylunio, ffotograffiaeth, cadarnhad a chynnyrch argraffu.

Rhestr wirio

Dyma restr o bethau y dylech eu hystyried:

- Deall eich darllenwyr - oes gyda chi gynllun blynyddol ar gyfer ymchwil a chasglu adborth?
- Bod yn gryno - ydy'ch fformat yn gryno, yn gyfleus ac yn gyraeddadwy?
- Ydych chi'n defnyddio storïau difyr yn unig?
- Ydych chi'n defnyddio gwaith byr a lluniau trawiadol?
- Ydych chi'n defnyddio pwyntiau bwled, rhestru a phenawdau er mwyn gwneud y cyfan yn gyraeddadwy?
- Ydych chi'n nodi'r cyhoeddiadau fel y gellir dod o hyd iddynt yn hawdd?
- Ydych chi'n osgoi'r dybiaeth fod eich darllenwyr yn gwybod amdanoch yn barod?
- Ydych chi'n defnyddio cyfle i gynnwys darllenwyr drwy roi cyfle iddynt gyfrannu neu wrando arnynt?
- Ydych chi bob amser yn annog ymateb oddi wrth y darllenwyr ac yn cynnig cyfle iddynt gysylltu â chi?
- Ydych chi'n gwneud gwybodaeth ariannol yn ddiddorol a chyraeddadwy?
- Ydych chi'n cyhoeddi lluniau o'r bobl yr hoffai darllenwyr gysylltu â nhw?
- Ydych chi'n agored ac yn atebol?
- Ydych chi'n defnyddio sawl fformat gwahanol megis tâp clywedol, disg gyfrifiadurol?
- Oes noddwr gennych ar gyfer wich Adroddiad Blynyddol?

Gwybodaeth bellach

Gofynion a chanllawiau elusennau - Cyfrifon ac adroddiadau elusennau
Comisiwn Elusennau
Ffôn: 0845 3000 218
www.charity-commission.gov.uk

Companies House
Ffôn: 0303 1234 500
www.companies-house.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:25/08/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk